

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) (Diwygio) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) (Diwygio) 2022.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth leol

25 Ionawr 2022

1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) (Diwygio) 2022 yn diwygio Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) 2021 i newid y dyddiad y bydd swyddogaethau penodol yn cael eu rhoi i Gyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain.

Daw'r darpariaethau hynny i rym ar 18 Chwefror 2022.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Cynhwysir y pwerau sy'n galluogi'r Rheoliadau hyn i gael eu gwneud yn adrannau 80(1) a 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae adran 80(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio neu ddirymu rheoliadau cyd-bwyllgorau. Mae adran 174 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoliadau hyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn y Senedd.

Ar yr amod eu bod yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd, caiff y Rheoliadau eu gwneud gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a deuant i rym ar 18 Chwefror 2022.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) (Diwygio) 2022 ("y Rheoliadau Diwygio") yn diwygio Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) 2021 ("Rheoliadau Sefydlu'r De-ddwyrain") i newid y dyddiad y bydd swyddogaethau penodol yn cael eu rhoi i Gyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain.

Mae'r Rheoliadau Diwygio yn diwygio rheoliad 1(3) o Reoliadau Sefydlu'r De-ddwyrain fel y bydd rheoliadau 11, 12 a 13, a rheoliad 15 (i'r graddau y mae'n ymwneud â swyddogaethau a roddir i Gyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain gan reoliadau 12 a 13 o Reoliadau Sefydlu'r De-ddwyrain) yn cychwyn ar 30 Mehefin 2022 yn hytrach na 28 Chwefror 2022 fel y darperir ar ei gyfer ar hyn o bryd. Gofynnodd Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain am y diwygiad hwn i roi mwy o amser i ddatrys materion technegol sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â'r gweithrediad cyn i'r swyddogaethau gychwyn.

Mae rheoliad 11 o Reoliadau Sefydlu'r De-ddwyrain yn rhoi i Gyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain y swyddogaeth llesiant economaidd, mae rheoliad 12 yn rhoi'r swyddogaeth o ddatblygu polisïau trafndiaeth o dan Ran 2 o Ddeddf Trafndiaeth 2000 ac mae rheoliad 13 yn rhoi'r swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol.

Mae'r Rheoliadau Diwygio hefyd yn hepgor y cyfeiriad at reoliad 11 yn rheoliad 1(3)(d) o Reoliadau Sefydlu'r De-ddwyrain.

Diben gwreiddiol rheoliad 1(3)(d) oedd gohirio cychwyn rheoliad 15 yn rhannol, fel na fyddai rheoliad 15, i'r graddau yr oedd rheoliad 15 yn ymwneud â'r swyddogaethau llesiant economaidd, datblygu polisïau trafnidiaeth o dan Ran 2 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 a llunio cynllun datblygu strategol, yn dod i rym nes y byddai'r swyddogaethau hynny mewn grym.

Pan wnaed Rheoliadau Sefydlu'r De-ddwyrain, roedd rheoliad 15 yn cynnwys pŵer i Gyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain ddirprwyo ei swyddogaethau, ynghyd â rhai eithriadau i'r pŵer hwnnw.

Fodd bynnag, wedi hynny, rhoddodd Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 bŵer newydd i Gyd-bwyllgorau Corfforedig i ddirprwyo swyddogaethau (rheoliad 13 o'r Rheoliadau hynny). Ar yr un pryd, yn lle rheoliad 15 o Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) 2021, rhoddwyd fersiwn newydd o reoliad 15 nad oedd ond yn ymdrin â datgymhwysiad o bŵer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig i ddirprwyo, mewn perthynas â swyddogaethau penodol.

Mae'r rheoliad 15 newydd yn cynnwys datgymwysiadau o'r pŵer i ddirprwyo sy'n berthnasol i reoliad 12 (datblygu polisïau trafnidiaeth) a rheoliad 13 (llunio cynllun datblygu strategol) ond nid yw'n cynnwys rhai sy'n berthnasol i reoliad 11 (llesiant economaidd). Felly, mae'r cyfeiriad yn rheoliad 1(3)(d) o Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) 2021 at reoliad 11 bellach yn anghywir ac mae'r Rheoliadau Diwygio yn ei ddileu.

5. Ymgynghori

Gofynnodd cynghorau cyfansoddol Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain am y diwygiad i Reoliadau Sefydlu'r De-ddwyrain er mwyn newid y dyddiad y bydd swyddogaethau penodol yn cael eu rhoi i Gyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain.

Yn ogystal, ac yn unol ag adran 80(2)(c) ac adran 82(2) a (3)(a) a (d) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ag unrhyw bersonau yr oeddent yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â nhw, ar ddrafft o'r Rheoliadau hyn, ac wedi rhoi hysbysiad o'u bwriad i wneud y Rheoliadau i'r prif gynghorau yn ardal Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain ac i Gyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain ei hun.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Asesodd Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a oedd yn cyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) 2021, y costau a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy reoliadau. Wrth asesu'r costau a'r manteision posibl, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried y bwriad polisi cyffredinol y dylid trin Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol', gan gynnwys cymhwyso cyfundrefn briodol ar gyfer cyfrifyddu, archwilio a rheolaeth ariannol.

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol ar wahân wedi'i baratoi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn gan nad ystyrir y bydd y newid yn y dyddiad y bydd swyddogaethau penodol yn cael eu rhoi i Gyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain yn effeithio'n sylweddol ar gostau sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain ac felly mae'r effaith reoleiddiol wreiddiol yn parhau'n ddilys.

Mae copi o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn cyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) 2021 ar gael fel rhan o'r dogfennau perthnasol a oedd yn cyd-fynd â'r Rheoliadau hynny.

<https://senedd.cymru/media/asppuikv/sub-ld14134-em-w.pdf>